



Ein cyf/Our ref: DC/JMHSC/02870/25

Carl Cooper – Cadeirydd
Hayley Thomas – Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

10 Rhagfyr 2025

Annwyl Carl a Hayley

Mae'r llythyr hwn yn dilyn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus a gynhaliwyd ag aelodau o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 27 Tachwedd 2025. Diolch ichi ac i'ch tîm am fod yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd yn gyfle i dynnu sylw at y gwaith y mae'r bwrdd iechyd yn ei gyflawni ar ran y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Mae'r llythyr hwn yn nodi fy myfyrdodau yn dilyn y cyfarfod hwnnw. Byddwn yn parhau i adolygu'r themâu hyn yn ein cyfarfodydd adolygu rheolaidd.

Diben y cyfarfod oedd darparu sicrwydd, mynd i'r afael â heriau a thynnu sylw at lwyddiannau a meysydd i'w gwella. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhan bwysig o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddwyn sefydliadau'r GIG i gyfrif am gyflawni ein blaenoriaethau – gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflawni gweithredol yn ystod y flwyddyn, cyllid a chynllunio, mynediad at ofal iechyd, ansawdd, diogelwch a rheoli risgiau allweddol.

Diolch ichi am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod. Mae'r pecyn hwnnw yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod. Mae recordiad o'r cyfarfod ar gael yma:

[Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – 27 Tachwedd 2025, 4:00pm.](#)

Roedd eich sylwadau agoriadol yn tynnu sylw at y flwyddyn anodd a nodwyd gan y Bwrdd, gan gydnabod ymroddiad a chyfraniad eich staff, a'r sefydlogrwydd a ddarperir gan y Bwrdd. Gwnaethoch hefyd fyfyrto ar yr heriau y mae'r Bwrdd yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau ar draws cymunedau gwledig a phrin eu poblogaeth, sy'n llywio anghenion iechyd a phenderfyniadau strategol. Gwnaethoch ddisgrifio dull gweithredu'r Bwrdd yn un sydd wedi'i wreiddio mewn arweinyddiaeth dosturiol a diwylliant sy'n seiliedig ar werthoedd, gan alluogi craffu effeithiol mewn amgylchedd cefnogol. Nodwyd bod yr egwyddorion hyn yn sylfaen ar gyfer eich penderfyniadau a'ch dulliau cyflawni.

Dechreuodd y cyfarfod gyda thrafodaeth fanwl a gonest am eich sefyllfa ariannol. Ym mis Tachwedd 2024, gosodwyd y Bwrdd ar lefel uwchgyfeirio 4 o ran cyllid, strategaeth a chynllunio oherwydd pryderon am ddiffyg ariannol cynyddol. Mae diffyg rhagweladwy o £28.3m ar gyfer 2025/26 a diffyg sylfaenol o £42.1m. Mae'r prif

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bwysau ariannol sy'n wynebu'r sefydliad yn cynnwys comisiynu gofal eilaidd a gofal arbenigol (ar draws GIG Cymru a GIG Lloegr), gofal iechyd parhaus, costau cyflog a lleoliadau iechyd meddwl preifat. Ymhlith y ffactorau sy'n rheoli costau heb eu cynllunio y mae cynnydd o 13% yn nhariff GIG Lloegr.

Gwnaethoch gadarnhau bod y Bwrdd yn canolbwyntio ar ddatrys y pwysau ariannol a bod hyn wedi arwain at benderfyniadau anodd yn ymwneud â chomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau darparwyr. Cydnabu'r Bwrdd fod y trafodaethau hyn yn dal i fynd rhagddynt â nifer bach o ddarparwyr sy'n parhau i weithredu o fewn gwahanol safonau mynediad. Mae gwaith ar y gweill i ddatrys yr achosion hyn o wrthdaro sy'n parhau – fodd bynnag, ansawdd a diogelwch profiadau cleifion yw'r sbardun craidd y tu ôl i'r broses hon o hyd.

Mae'r Bwrdd wedi cyflawni arbedion o £18.2 miliwn yn erbyn targed o £23.1 miliwn, gyda thanwariant gweithredol yn helpu i wrthbwysu'r diffyg. Mae arbedion rheoli'r gweithlu a meddyginiaethau ar y trywydd iawn, ond mae heriau'n parhau o ran costau darparwyr preifat a chomisiynu gofal iechyd parhaus. Roeddwn yn glir ynghylch y disgwyliad o gael hyder yn eich cyflawniad ariannol yn ystod y flwyddyn a'ch llwybr trywydd tuag at sefyllfa ariannol gynaliadwy.

Gwnaethoch amlinellu'r broses ynghylch llwybr trywydd y Bwrdd i gynaliadwyedd, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r rhaglen drawsnewid Gwell Gyda'n Gilydd, gweithredu fframwaith comisiynu strategol newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi, a gwelliannau parhaus o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Mae adolygiad allanol ar y gweill i gryfhau rheolaethau ariannol a mynd i'r afael â ffactorau sy'n rheoli costau. Rhaid i ganlyniadau'r ymyrraeth hon, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fod yn rhan annatod o lwybr trywydd y Bwrdd at gynaliadwyedd, i gau'r bwlch arbedion a chynyddu'r momentwm ar gyfer trawsnewid gwasanaethau i ddod â hwy yn nes at y cartref lle bynnag y bo modd.

O ran defnyddio gwasanaethau gofal iechyd, mae preswylwyr sy'n defnyddio gwasanaethau ym Mhowys yn cael triniaethau a gwasanaethau yn unol â safonau Cymru. Fel darparwr, nid oes gan y bwrdd iechyd unrhyw gleifion sy'n aros dros 104 o wythnosau am driniaeth neu 52 o wythnosau am apwyntiad cleifion allanol, ac mae mynediad at therapi plant yn cyrraedd y targed 14 o wythnosau. Mae gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc o dan 18 oed yn rhagori ar y safonau cenedlaethol, ac mae unedau mân anafiadau yn cyrraedd y targed o ran amser aros, sef pedair awr. Mae rhywfaint o amrywioldeb o ran amseroedd aros diagnosteg, gwasanaeth iechyd meddwl oedolion, ac oedi yn achos llwybrau gofal.

Mae'r preswylwyr hynny sy'n gorfod teithio i fyrddau iechyd mewn rhannau eraill o Gymru ac ymddiriedolaethau yn Lloegr yn wynebu rhagor o heriau. Er mwyn sicrhau cysondeb mewn safonau, gwnaethoch gadarnhau bod y Bwrdd yn monitro effaith comisiynu'r holl ofal a gynlluniwyd yn erbyn safonau amseroedd aros Cymru. Rydych hefyd wedi cymryd camau i gryfhau prosesau goruchwyllo ansawdd a diogelwch mewn gwasanaethau a gomisiynir, yn enwedig gofal trawsffiniol. Yn rhan o'r gwaith goruchwyllo hwn, rydych yn datblygu gweithdrefnau i wella'r broses o gasglu data a rheoli contractau.

Gwnaethom gyuno na fydd rhoi'r model gwasanaeth presennol ar waith yn arwain at wasanaeth gofal iechyd cynaliadwy i'r sefydliad a bydd yn rhaid i'r model gweithredu

yn y dyfodol gael ei chreu ar sail gofal cymunedol, atal ac ymyrraeth gynnar. Gwnaethoch dynnu sylw at y ffaith bod y gwaith sy'n cael ei wneud ar y rhaglen Gwell Gyda'n Gilydd yn cynrychioli dull gweithredu'r Bwrdd ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol ac y bydd hyn yn sail i strategaeth a chynlluniau yn y dyfodol. Mae canolbwyntio ar ofal cymunedol, atal a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau aciwt ac asiantaethau yn ganolog i'ch gweledigaeth ar gyfer gofal iechyd yn y rhanbarth. Mae arweinyddiaeth ac ymgysylltu clinigol yn cael eu cryfhau, gyda mewnbwn amlddisgyblaethol ac arbenigedd allanol yn helpu'r gwaith o ailgynllunio gwasanaethau.

Mae iechyd y boblogaeth ac atal wedi'u hymgorffori yn y gwaith cynllunio, ac mae fframwaith strategol newydd wedi'i gymeradwyo. Mae'r Bwrdd yn paratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar gam un y rhaglen drawsnewid. Bydd rhai gwelliannau'n cael eu gweithredu yn y cylch cynllunio nesaf a bydd angen ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer rhai eraill.

Wrth i'r rhaglen drawsnewid hon gael ei datblygu, mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar ddatblygu rhai newidiadau uniongyrchol yn unol â'r weledigaeth strategol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu'r hwb iechyd menywod, cryfhau gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau optometreg, a gweithio'n agos gyda phartneriaid iechyd y cyhoedd ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd y boblogaeth, gan ganolbwyntio ar atal a llesiant.

Mae arweinyddiaeth glinigol a staff a arweinir yn dda yn allweddol i wneud y newidiadau y mae eu hangen ar y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cynnal tîm gweithredol ac anweithredol sefydlog, gan ganolbwyntio ar ddiwylliant perfformiad uchel, arweinyddiaeth dosturiol, a llywodraethiant effeithiol.

Mae mentrau'r gweithlu yn cynnwys lleihau dibyniaeth ar staff asiantaethau, recriwtio rhyngwladol, datblygu arweinyddiaeth, a rhaglenni "datblygu eich rhai eich hunain". Er bod lefelau ymgysylltu staff yn uchel, tynnwyd sylw at bryderon ynghylch straen, gyda 30% o'r absenoldebau yn cael eu priodoli i straen a/neu orbryder. Mae'r Bwrdd wedi rhoi cymorth wedi'i dargedu, mentrau llesiant, a chyfleoedd datblygu gyrfa ar waith, gan gynnwys cydweithio â byrddau iechyd eraill. Mae rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ar waith, ac mae'r Bwrdd yn gwerthuso eu heffaith ar effeithiolrwydd sefydliadol a hyder staff. Mae'r defnydd o staff asiantaethau wedi gostwng yn sylweddol, yn enwedig ym maes nyrsio, gan symud tuag at recriwtio parhaol, gan gynnwys recriwtio rhyngwladol.

Mae'r broses o adrodd am ddigwyddiadau yn sefydlog ac mae perfformiad rheoli heintiau yn gryf. Mae'r Bwrdd hefyd yn ymateb i'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau difrifol, gan gynnwys adolygiadau diweddar o achosion iechyd meddwl a hunanladdiad tybiedig.


Tynnodd y Bwrdd sylw at oedran a chyflwr ei ystad, gydag ôl-groniad sylweddol o ran gwaith cynnal a chadw a'r angen am fuddsoddi parhaus mewn cyfleusterau.

I grynhoi, roedd hwn yn gyfarfod defnyddiol. Rwy'n disgwyl i'r Bwrdd barhau i ganolbwyntio ar adfer ariannol, cyflawni arbedion, a gweithredu'r rhaglen drawsnewid a'r fframwaith comisiynu strategol newydd. Rwyf hefyd yn disgwyl iddo leihau gwariant nad yw'n hanfodol a mynd i'r afael â gwendidau gwasanaethau, yn

enwedig ym meysydd iechyd meddwl, gofal sylfaenol, a gwasanaethau deintyddol. Yn ystod y misoedd nesaf, rhaid i'r Bwrdd gryfhau prosesau goruchwyllo a sicrhau ansawdd gwasanaethau a gomisiynir, yn enwedig gofal trawsffiniol, gan baratoi hefyd ar gyfer ymgynghori ar gam un y rhaglen drawsnewid ac ymgorffori egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar y gymuned i brosesau cynllunio yn y dyfodol.

Mae cyfle clir i Bowys fod yn esiampl o ran gofal iechyd gwledig, modelau cymunedol, a chomisiynu strategol ac rwy'n disgwyl i'r Bwrdd symud tuag at y model hwn o ofal wrth gyflawni trefniadau cynllunio yn y dyfodol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a series of loops and a horizontal line.

Jeremy Miles AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care